**Tystiolaeth gwyrio gwaith dysgwyr**




Tystiolaeth o gywiro gwaith disgyblion trwy ddilyn polisi marcio'r ysgol.

**Adnoddau gwreiddiol**

Cywiro brawddegau

gwelais i robyn goch bach yn eistedd

clywais i ddail yn siffrwd yn y gwynt

aroglais i bara melys ffres yn coginio

gwelais i gastell enfawr gwyn

Tasg wedi gwahaniaethu ar gyfer grwpiau is eu gallu. Roedd disgwyl i'r disgyblion adnabod beth oedd yn anghywir efo'r brawddegau a darganfod yr ansoddeiriau a'r berfau gorffennol.

Cywiro brawddegau

teimlais i yn gyffrous wrth deithio ar y bws gwyn cyflym i sain ffagan

gwelais i robyn goch fach yn eistedd yn dawel ar y gwair wlyb gwyrdd

clywais i adar yn canu yn swynol yn y coed hydrefol

cerddais i ar lwybr hir llwyd o amgylch sain ffagan

aroglais i fwg drewllyd o dân yn llosgi yn nhy rhif 2

mwynheuais i weld hen dai teras rhydycar

Tasg wedi gwahaniaethau ar gyfer grwpiau mwy galluog. Roedd disgywl i'r disgyblion adnabod y camgymeriadau, dod o hyd i'r ansoddeiriau a'r berfau gorffennol ac ehangu ei eirfa trwy ddechrau defnyddio'r geiriau newydd sydd yn y brawddegau.

**Ateb cwestiynau ar ddata casglwyd ar dai Rhydycar yn St. Fagan.**

1. Pa dai oedd â golau trydanol?

2. Beth ddefnyddiwyd yn lle golau trydanol?

3. Ym mha dai oedd peiriant golchi?

4. Beth ddefnyddiwyd yn lle tŷ bach tu fas?

5. Oedd cegin ym mhob tŷ ?

6. Ble welsoch chi'r teledu?

7. Ym mha dai nad oedd papur wal?

8. Pa dai oedd â charped ar y llawr?

Tasg wedi gwahaniaethau ar gyfer grwpiau mwy galluog. Roedd rhaid i'r disgyblion uwch ei gallu ateb trwy geisio defnyddio brawddegau llawn.

**Ateb cwestiynau ar ddata casglwyd ar dai Rhydycar yn St. Fagan**

1. Pa dai oedd â golau trydanol?

   ______________________________

2. Ym mha dai oedd peiriant golchi?

   ______________________________

3. Beth ddefnyddiwyd yn lle tŷ bach tu fas?

   ______________________________

4. Oedd cegin ym mhob tŷ ?

   ______________________________

5. Ble welsoch chi'r teledu?

   ______________________________

6. Ym mha dai nad oedd papur wal?

   ______________________________

7. Pa dai oedd â charped ar y llawr?

   ______________________________

Tasg wedi gwahaniaethu ar gyfer disgyblion is eu gallu. Roedd disgwyl i'r disgyblion ateb trwy sillafu'n gywir ac yn dibynnu ar ei allu, defnyddio ambell frawddeg llawn.

**Tasgau o'r gwersi iaith**


CSC

Ymarfer Adolygu Rhannau Ymadrodd

1. Rhowch **luosog** yr enwau hyn, e.e. ysbyty > ysbytai

i) arolygwr
ii) disgybl
iii) adran
iv) dogfen
v) pennaeth

2. Rhowch **unigol** yr enwau hyn, e.e. arholiadau > arholiad

i) rhieni
ii) plant
iii) ffeithiau
iv) pynciau
v) cynlluniau

3. Pa rannau ymadrodd sydd o dan sylw yma? e.e. iechyd = enw

i) apelio at
ii) coleg
iii) addysgol
iv) daeth
v) ei fag
vi) siarad
vii) cysgu'n dawel
viii) y sefyllfa ddwyieithog


15/10/19

**Gwallau 3.14**
**Arddodiaid ar ôl berfau**

1. Tasg i'r dosbarth
[Cymraeg Da: Adran 4]

1. a Nododd yr adroddiad fod mwy o bobl yn gwrando i'r radio y dyddiau hyn na deng mlynedd yn ôl.
b Nododd yr adroddiad fod mwy o bobl yn gwrando ar y radio y dyddiau hyn na deng mlynedd yn ôl.

2. a Bob Nadolig, mae hi'n ysgrifennu i'w modryb i ddiolch iddi am ei hanrheg.
b Bob Nadolig, mae hi'n ysgrifennu at ei modryb i ddiolch iddi am ei hanrheg.

3. a Bydd ei modryb yn anfon anrheg ati bob Nadolig.
b Bydd ei modryb yn anfon anrheg iddi bob Nadolig.

4. a Aethant i mewn i'r siop i guddio o'r glaw.
b Aethant i mewn i'r siop i guddio rhag y glaw.

5. a Mae'n bwysig dweud y gwir i bawb ar ôl popeth a ddigwyddodd.
b Mae'n bwysig dweud y gwir wrth bawb ar ôl popeth a ddigwyddodd.

6. a Penderfynaist ti beidio â mynd i weld y ddrama, wedi'r cyfan.
b Penderfynaist ti i beidio â mynd i weld y ddrama, wedi'r cyfan.

7. a Gofynnais wrtho am gael benthyg ugain punt.
b Gofynnais iddo am gael benthyg ugain punt.

8. a Yr oedd yn hyfryd clywed oddi wrth ein perthnasau yn yr Eidal.
b Yr oedd yn hyfryd clywed o'n perthnasau yn yr Eidal.

9. a Aeth y cadeirydd i siarad â phawb cyn y cyfarfod.
b Aeth y cadeirydd i siarad i bawb cyn y cyfarfod.

10. a Bydd y trên nesaf yn cyrraedd yng ngorsaf Abertawe am 18.35.
b Bydd y trên nesaf yn cyrraedd gorsaf Abertawe am 18.35.

11. a Cofiwch fi at eich rhieni pan welwch chi nhw nesaf!
b Cofiwch fi i'ch rhieni pan welwch chi nhw nesaf!

12. a Dechreuodd y côr ganu am saith o'r gloch heno.
b Dechreuodd y côr i ganu am saith o'r gloch heno.

13. a Ymwelwn rai o ogoniannau'r Eidal y flwyddyn nesaf.
b Ymwelwn â rhai o ogoniannau'r Eidal y flwyddyn nesaf.

14. a Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y cyfarfod nesaf.
b Edrychwn ymlaen i'ch gweld yn y cyfarfod nesaf.

15. a Yr oedd y ddau fachgen yn ymladd gyda'i gilydd.
b Yr oedd y ddau fachgen yn ymladd â'i gilydd.

# Ymarfer – Ble mae'r treiglad?

*Gan ddefnyddio lliwiau neu siapiau gwahanol tynnwch sylw at bob treiglad meddal, trwynol a llaes yn y darn hwn. Ceisiwch esbonio pam eu bod nhw yno.*

Wythnos nesaf, bydd bwyty newydd yn agor ei ddrysau yn fy nhref enedigol. Dim ond cynnyrch lleol gorau fydd yn cael ei goginio yno yn ôl y rheolwraig. mae hi'n awyddus i gadw'r prisiau mor isel â phosib, ond bydd hyn yn dibynnu ar ei chwsmeriaid. Os daw digon yno, bydd y prisiau yn fwy rhesymol. Yn fy marn i, mae cynnig cynnyrch lleol organig yn sicr o ddenu oherwydd y dyddiau hyn, mae pobl yn ymwybodol iawn o'r amgylchedd a'r pellter y mae'r bwyd wedi teithio.